

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 15 Awst 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd S Powell Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd R Yeo Y Cyngorydd D Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr J Bailey, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd K Morgan

Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd Owen-Jones

57 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol D. Grehan a G. Hughes.

58 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

59 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

60 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

61 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, 2019 yn rhai cywir.

62 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

63 CAIS: 19/0562

Datblygu hen siop bapurau newydd yn 'Feicro-dafarn'. Hen siop bapurau newydd gyferbyn ag Archfarchnad Spar, Heol Gwaunmeisgyn, y Beddau.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Simon Cole (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ddiwygio Amod 3 i ddarllen fel y ganlyn:

"Mae'r oriau agor i'r cyhoedd yn cael eu cyfyngu fel y nodwyd isod:

Dydd Llun i Ddydd Sul (gan gynnwys Gwyliau Banc) 09.00 i 23.00

Rheswm: Er budd amwynder meddianwyr cyfagos ac i ddiffinio cwmpas y caniatâd, yn unol â Pholisïau AW5 ac AW10 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf."

64 CAIS: 19/0592

Estyniad sy'n dri-llawr yn rhannol, a'n un-llawr yn rhannol, i ochr yr adeilad. To fflat newydd i'r estyniad presennol. 79 Lanwood Road, Graigwen, Pontypridd.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Eamon Scullion (Ymgeisydd)
- Diane Williams (Gwrthwynebydd)

Cafodd yr Ymgeisydd, Mr Eamon Scullion, y cyfle i ymateb i'r Gwrthwynebydd ond gwrthododd wneud hynny.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu.

65 CAIS: 19/0606

Dymchwel garej ddwbl bresennol a chreu annedd newydd. Anedd i'w gysylltu â'r tŷ presennol (Rhif 18) 18 Forest Hills Drive, Tonysguboriau, Pont-y-clun.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Tim Davies (Asiant)
- Hayley McNaughton (Gwrthwynebydd)
- Sally Norris (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr Tim Davies, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyd.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais ac awgrymodd pe bai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais, dylid cynnwys Amod ychwanegol, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i fanylion triniaethau ffiniau gael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo fel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r Amod sydd wedi'i amlinellu uchod.

66 CAIS: 19/0615

Adeiladu garej y mae modd ei chloi a storfa ategol i'r siop garped. 15 Llantrisant Road, Pont-y-clun

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Ross Johnston (Ymgeisydd) ar ran Mr Rhys Gill (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu.

67 CAIS: 18/0313

Dwy uned Dosbarth A1 (manwerthu) arfaethedig, tair uned Dosbarth A3 (bwyd a diod), isadeiledd y priffyrdd, meysydd parcio, trefniadau gwasanaethu a gwaith cysylltiedig. Tir i'r dwyrain o Mill Street, Tonyrefail.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Elizabeth Palmer (Gwrthwynebydd). Cafodd hi bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Bryant (Ymgeisydd) a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Yn unol â chofnod 27 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 27 Mehefin 2019, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu. Amlinellodd yr adroddiad ganlyniad yr ymweliad safle, a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2019 mewn perthynas â'r cais. Roedd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wedi argymhell cymeradwyo'r cais yma.

Tynnodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu sylw'r Aelodau at Adran 3.11 yr adroddiad Ymweliad Safle, a oedd yn amlinellu cais yr ymgeisydd i newid geiriad Amod 12 i ganiatáu gwaith gwella priffyrdd i'r gyffordd. Roedd yr aelodau'n teimlo'n gryf bod angen adeiladu cylchfan wrth y gyffordd er mwyn hwyluso mynediad diogel ar hyd Mill Street ac i mewn i'r safle datblygu a bod rhaid i'r gwaith hwn gael ei wneud cyn dechrau'r datblygiad. O'r herwydd, ni dderbyniodd yr Aelodau'r diwygiad a awgrymwyd i Amod 12 y gofynnodd yr ymgeisydd amdano, a phenderfynwyd y dylid gosod yr Amod fel yr oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad gwreiddiol.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

68 CAIS: 19/0471

Newid defnydd o dŷ ocsiwn (Sui Generis) i greu 2 uned tecawê (A3) ac 1 uned fanwerthu (A1). 66b Hannah Street, y Porth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodyn:** Ni fu'r cynnig i wrthod y cais yn erbyn argymhelliad y swyddog yn seiliedig ar gynifer o fusnesau Dosbarth Defnydd A3 sydd yn yr ardal yn llwyddiannus)

(**Nodwch:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams am gofnodi ei bod hi wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod).

69 CAIS: 19/0512

Gosod 14 o golofnau ar gyfer llif oleuadau. Cae Athletau Cwm Clydach, Parc Coffa Brenin Siôr V, Pafiliwn Busnes Cambrian Court tua'r pen deheuol, Tonypandy.

PENDERFYNODD y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

70 CAIS: 19/0526

Canolfan iechyd gofal sylfaenol ddeulawr arfaethedig, gyda maes parcio cysylltiedig, storfa finiau a storfa feiciau. Tir yn Henry Street, Aberpennar.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

Rhoddodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu wybod i'r Aelodau am wall yn yr adroddiad. Hynny yw, dim ond y 7 Amod olaf y cyfeiriwyd atyn nhw ym mhrif gorff yr adroddiad sydd wedi'u hailadrodd ar y diwedd yn yr adran 'Amodau'. Gofynnwyd i'r aelodau roi sylw i'r 15 amod sy'n ymddangos yng nghorff yr adroddiad a rhoddwyd fersiwn ddiwygiedig iddyn nhw er hwylustod.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys dau llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd. Cyflwynwyd y llythyr cyntaf gan Hatcher Pritchard Architects yn rhestru dogfennau ategol cefnogol cyfredol i'r cais. Roedd yr ail gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn nodi nad oedd unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu at yr adroddiad.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais ac awgrymodd y dylid cynnwys yr Amod ychwanegol canlynol, pe bai'r Aelodau'n cymeradwyo'r cais:

“Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a restrir yn y llythyr gan Hatcher Pritchard Architects, wedi'i ddyddio 2 Awst 2019 oni bai bod amodau eraill yn cael eu cymeradwyo a'r rhain yn cael eu disodli gan fanylion sy'n ofynnol gan unrhyw amod arall sydd ynghlwm wrth y caniatâd yma.

Rheswm: Sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynlluniau a'r dogfennau sydd wedi'u cymeradwyo a diffinio ffiniau'r caniatâd yn glir.'

PENDERFYNODD y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r Amod sydd wedi'i amlinellu uchod.

71

CAIS: 19/0685

Adeiladu ysgol gynradd newydd (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 12/07/2019) Ysgol Fabanod a Meithrin Hirwaun, Glanant Street, Hirwaun, Aberdâr.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K. Morgan, nad yw'n aelod o'r pwyllgor, am y cais a chroesawodd datblygu ysgol newydd ond nododd ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig, yn arbennig y goblygiadau o ran traffig. Gofynnodd yr Aelod Lleol i Amod 12 gael ei aralleirio i rwystro cerbydau HGV rhag dosbarthu nwyddau ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd wrth Gyfoeth Naturiol Cymru, yn rhoi gwybod nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r cais ers adolygu'r Adroddiad Arolwg Ystlumod.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais ac yn dilyn trafodaeth

PENDERFYNODD y Pwyllgor cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygiad. Roedd hyn yn amodol ar roi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygiad i ddiwygio Amod 12 i sicrhau na chaniateir cerbydau HGV i ddsbarthu nwyddau ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

72 CAIS: 19/0218

Newid defnydd dwy ystafell o fewn annedd C3 presennol i gaffi/siop goffi A3, 7 Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, Caerdydd, CF15 7RA.

Yn unol â chofnod 53 o Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. Amlinellodd yr adroddiad ganlyniad yr ymweliad safle, a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 mewn perthynas â'r cais. Roedd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wedi argymhell cymeradwyo'r cais yma.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan Adran y Priffyrdd a Thrafnidiaeth, a oedd yn manylu ar arsylwadau pellach mewn perthynas â diffyg pum lle parcio a'r tagfeydd a gafwyd eisoes ar Ffordd Caerdydd. O'r herwydd, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried dau Amod ychwanegol a awgrymwyd gan swyddog y Priffyrdd, sy'n nodi:

1. "Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, ni fydd y datblygiad yn cychwyn nes bod manylion sy'n darparu ar gyfer yr estyniad i'r groesfan gerbydau bresennol y tu ôl i'r eiddo wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y manylion cymeradwy yn cael eu gweithredu ar y safle cyn iddo gael ei drosglwyddo ar gyfer defnydd buddiol.

RHESWM: Sicrhau diogelwch ar y priffyrdd a mynediad ac allanfa boddhaol i'r ardaloedd parcio."

2. "Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw waith yn cychwyn ar y safle nes bod manylion ynglŷn â darparu 4 lle parcio o fewn cwrtil y safle wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Caiff y cynllun cymeradwy ei weithredu cyn meddiant buddiol a bydd y lleoedd parcio yn parhau i gael eu defnyddio at ddibenion parcio cerbydau yn unig.

RHESWM: Sicrhau bod cerbydau wedi'u parcio oddi ar y briffordd gyhoeddus, er budd diogelwch ar y priffyrdd a llif y traffig."

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r Amodau sydd wedi'u hamlinellu uchod.

73 CAIS: 18/1333/10

Caniatâd ôl-weithredol ar gyfer llofft colomennod ar wahân (derbyniwyd y cyfeiriad diwygiedig 23/04/19), tu ôl i 14 Teras Arfryn, Tylorstown, Glynrhedynog.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais a gafodd ei gyflwyno yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 27 Mehefin, 2019, lle'r oedd yr Aelodau wedi gwrthod y cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd yr aelodau o'r farn bod y llofft colomennod yn cael effaith ormesol ar eiddo cyfagos ac yn cael effaith sylweddol ar gymeriad ac ymddangosiad y safle ac amwynder gweledol eiddo cyfagos (mae Cofnod Rhif 30 yn cyfeirio at hyn).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad swyddogion a **PHENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd yr aelodau o'r farn o hyd, o ystyried ei ddyluniad, ei faint a'i safle uchel, ac o ystyried ei berthynas ag eiddo cyfagos yn Arfryn Terrace, fod y llofft colomennod yn cael effaith niweidiol sylweddol ar amwynder a golygfeydd preswylwyr cyfagos, gan arwain at ddatblygiad rhy amlwg nad oedd yn deg ar y cymdogion. Mae'r datblygiad felly yn groes i Bolisiâu AW5 ac AW6 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

74 CAIS: 18/1400/10

Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu 18 o gartrefi preswyl fforddiadwy a'r gwaith a'r trefniadau mynediad cysylltiedig (cynllun diwygiedig o'r safle wedi'i dderbyn ar 07/02/19). Eglwys y Santes Anne, Church Terrace, Ynys-hir, Y Porth.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais a gafodd ei gyflwyno yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 4 Gorffennaf 2019, lle'r oedd yr Aelodau wedi gwrthod y cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd yr aelodau o'r farn na fyddai dyluniad, maint a chynllun yr adeilad arfaethedig yn cyd-fynd â chymeriad ac ymddangosiad yr ardal gyfagos; a byddai'n arwain at effaith niweidiol ar breifatrwydd ac amwynder yr eiddo cyfagos (mae Cofnod Rhif 41 yn cyfeirio at hyn).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad swyddogion a **PHENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd yr aelodau o'r farn:

1. Y byddai'r datblygiad arfaethedig, o ganlyniad i'w faint, ei ddyluniad, a'i uchder, a goblygiadau'r rhain, yn ei wneud yn amhriodol ac yn anghydnaws â chymeriad ac ymddangosiad yr ardal gyfagos, ac a fyddai'n arwain at nodwedd ddominyddol a gormesol yng ngolygfeydd stryd ar hyd Teras yr Eglwys a Ffordd yr Orsaf. Felly mae'r cynnig yn groes i Bolisiâu AW5.1 ac AW6 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â'i effaith weledol bosibl; a

2. Y byddai'r datblygiad arfaethedig, o ganlyniad i'w faint, ei ddyluniad, a'i uchder, a goblygiadau'r rhain, a'r ffaith y byddai mor agos at yr eiddo cyfagos ar hyd Teras yr Eglwys a Ffordd yr Orsaf i'r gogledd, yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar y lefelau amwynder preswyl y mae deiliaid yr eiddo hynny'n eu mwynhau ar hyn o bryd. Byddai hyn yn deillio o effaith ormesol, golygfeydd yn edrych dros yr eiddo cyfagos a cholli preifatrwydd. O ganlyniad, mae'r cynnig yn groes i Bolisi AW5.1 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

75

**GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU
WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 4 Gorffennaf 2019 ac 2 Awst 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm

**Y Cyngorydd S Rees
Cadeirydd.**